Adran Gwaith
a Phensiynau

# Cynnig ar gyfer dyfodol Canolfan Gwaith Y Pîl

Ionawr 2017

# Cynnwys


Cyflwyniad ........ 3

Am yr ymgynghoriad hwn ........ 3

Sut rydym yn ymgynghori ........ 4

Egwyddorion ymgynghori ........ 4

Adborth ar y broses ymgynghori ........ 4

Rhyddid gwybodaeth ........ 4

Cyflwyniad ........ 6

Beth mae hyn yn ei olygu i Ben-y-bont ar Ogwr ........ 6

Y cynnig ........ 6

Holiadur ........ 8

Atodiad A ........ 10

# Cyflwyniad

Mae'r ymgynghoriad hwn yn ceisio barn ar ddyfodol Canolfan Gwaith Y Pîl gan gynnwys cau'r adeilad a throsglwyddo'r gwasanaethau a ddarperir i ganolfan gwaith arall yn ardal Pen-y-bont ar Ogwr. Bydd y cau yn cyfrannu at gyfuno'r rhwydwaith o ganolfannau gwaith a, thrwy waredu, yn rhoi'r cyfle i'r Adran Gwaith a Phensiynau (DWP) i ddarparu gwell gwasanaethau i gwsmeriaid ar lai o gost i'r trethdalwr drwy well defnydd o'r swyddfeydd rydym yn eu defnyddio.

## Am yr ymgynghoriad hwn

### At bwy mae'r ymgynghoriad hwn wedi'i anelu

Mae'r ymgynghoriad hwn yn ceisio barn pawb sydd â diddordeb yng ngwasanaethau Canolfan Gwaith Y Pîl.

### Pwrpas yr ymgynghoriad

Bydd canlyniadau'r ymgynghoriad yn cael eu defnyddio i lywio penderfyniadau'r adran am ddarparu gwasanaethau yn dilyn y bwriad i gau Canolfan Gwaith Y Pîl a'r darpariaeth o wasanaethau i'r gymuned leol.

### Cyfnod yr ymgynghoriad

Mae cyfnod yr ymgynghoriad yn dechrau ar ddydd Llun 30 Ionawr 2017 ac yn parhau tan 5pm ar ddydd Mawrth 28 Chwefror 2017.

### Sut i ymateb i'r ymgynghoriad hwn

Dylech anfon eich ymatebion i'r ymgynghoriad i:

John-Mark Frost

Swyddfa'r Rheolwr Dosbarth,

Ymgynghoriad Cyhoeddus,

Canolfan Byd Gwaith Castell Nedd,

Windsor Road,

Castell Nedd,

SA11 1LY

E-bost: PLP.SITECONSULTATION@DWP.GSI.GOV.UK

### Ymateb y Llywodraeth

Ein nod yw cyhoeddi ymateb y llywodraeth i'r ymgynghoriad ar wefan GOV.UK. Mae'r egwyddorion ymgynghori yn annog Adrannau i gyhoeddi ymateb o fewn 12 wythnos neu ddarparu eglurhad pam nad yw hyn yn bosibl. Lle mae'r ymgynghoriad wedi'i gysylltu ag offeryn statudol, dylai ymatebion gael eu cyhoeddi cyn neu ar yr un pryd ag mae'r offeryn yn cael ei osod.

Bydd yr adroddiad yn crynhoi'r ymatebion.

# Sut rydym yn ymgynghori

## Egwyddorion  ymgynghori

Mae'r ymgynghoriad hwn yn cael ei gynnal yn unol ag egwyddorion ymgynghori Swyddfa'r Cabinet a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2016. Mae'r egwyddorion hyn yn rhoi arweiniad clir i adrannau'r llywodraeth ar gynnal ymgynghoriadau.

## Adborth ar y broses ymgynghori

Rydym yn gwerthfawrogi eich adborth ar ba mor dda rydym yn ymgynghori. Os oes gennych unrhyw sylwadau am y broses ymgynghori (yn hytrach na sylwadau am y materion sy'n destun i'r ymgynghoriad), yn cynnwys os ydych yn teimlo nad yw'r ymgynghoriad yn cadw at y gwerthoedd a fynegir yn yr egwyddorion ymgynghori neu y gallai'r broses cael ei wella, byddwch cystal â'u cyfeirio at:

DWP Consultation Coordinator
2nd Floor
Caxton House
Tothill Street
London
SW1H 9NA

E-bost: caxtonhouse.legislation@dwp.gsi.gov.uk

## Rhyddid gwybodaeth

Efallai y bydd angen i'r wybodaeth a anfonwch atom cael ei rhoi i gydweithwyr yn yr Adran Gwaith a Phensiynau, ei gyhoeddi mewn crynodeb o ymatebion a dderbyniwyd a'i gyfeirio ato yn yr adroddiad ymgynghori a gyhoeddir.

Gall yr holl wybodaeth a gynhwysir yn eich ymateb, gan gynnwys gwybodaeth bersonol, gael ei chyhoeddi neu ei datgelu os gofynnir amdani o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Drwy ddarparu gwybodaeth bersonol at ddibenion yr ymgynghoriad cyhoeddus, deëllir eich bod yn rhoi caniatâd i'w datgelu a'i chyhoeddi.

Os nad felly, dylech gyfyngu ar unrhyw wybodaeth bersonol a ddarperir, neu ei dileu'n gyfan gwbl. Os ydych am i'r wybodaeth yn eich ymateb i'r ymgynghoriad gael ei chadw'n gyfrinachol, dylech egluro pam fel rhan o'ch ymateb, er na allwn sicrhau i wneud hyn.

I gael gwybod mwy am egwyddorion cyffredinol Rhyddid Gwybodaeth a sut mae'n cael ei gymhwyso o fewn yr Adran Gwaith a Phensiynau cysylltwch â'r Tîm Rhyddid Gwybodaeth Canolog:
E-bost: freedom-of-information-request@dwp.gsi.gov.uk

Ni all y Tîm Rhyddid Gwybodaeth Canolog gynghori ar ymarferion ymgynghori penodol, dim ond ar faterion Rhyddid Gwybodaeth. Darllenwch ragor o wybodaeth am y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth.

# Cyflwyniad

Ar ôl 20 mlynedd, mae'r contract cenedlaethol sy'n cwmpasu llawer o swyddfeydd yr Adran Gwaith a Phensiynau (DWP) yn dod i ben ar 31 Mawrth 2018. Mae hyn yn rhoi cyfle i'r adran i adolygu pa swyddfeydd sydd eu hangen yn y dyfodol, gan ystyried y diwygiadau lles a fydd yn cael eu darparu dros y blynyddoedd nesaf a'r gwasanaethau y mae cymaint o'n cwsmeriaid yn dibynnu arnynt.

Drwy ond talu am y gofod sydd ei angen arnom byddwn yn arbed miliynau o bunnoedd o arian y trethdalwyr. Lle mae'n gwneud synnwyr i wneud hynny, byddwn hefyd yn parhau i wneud defnydd o gyfleoedd i gydleoli a rhannu adeiladau gyda sefydliadau eraill.

Mae'r arbedion ariannol a gaiff ei sicrhau drwy wella effeithlonrwydd ein ystâd yn rhan annatod o gynllun ariannol cyffredinol yr adran.

## Beth mae hyn yn ei olygu i Ben-y-bont ar Ogwr

1. Mae'r Adran Gwaith a Phensiynau wedi ymrwymo i gynnal rhwydwaith o ganolfannau gwaith, ar draws Prydain Fawr, sy'n cyflwyno gwasanaethau sy'n cefnogi system les effeithiol sy'n galluogi pobl i gyflawni annibyniaeth ariannol drwy ddarparu cymorth ac arweiniad i mewn i gyflogaeth. Mae ein hymrwymiad i Fwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn golygu ein bod yn cynnig ystâd sy'n addas ar gyfer yr ardal, ein hawlwyr budd-daliadau a'n cydweithwyr;ystâd fydd yn darparu gwasanaethau gwell drwy ddod â chanolfannau gwaith cyfagos at eu gilydd ble y gallwn gael mynediad at fwy o gyflogwyr a phartneriaid. Bydd ein cynigion yn darparu ystâd sy'n rhoi mynediad i fwy o gyfleoedd cyflogaeth i hawlwyr lleol ac yn ein galluogi i gyflawni arbedion sylweddol i'r trethdalwr.

## Y cynnig

2. Mae'r Adran Gwaith a Phensiynau yn bwriadu uno'r ganolfan gwaith llai hon i mewn i ganolfan gwaith gyfagos o fewn Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr tra’n cadw safleoedd mewn lleoliadau sy’n hygyrch i bob preswylydd. Ein blaenoriaeth bennaf yw i sicrhau bod lleoliad y safleoedd rydym wedi cynnig eu

cadw mor hygyrch â phosibl i bob un o'n hawlwyr. Rydym yn credu mae ein cynigion presennol yw'r ffordd orau o gyflawni hyn ym Mwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr.

3. Mae'r safleoedd sy’n fwy o faint i gyd mewn lleoliadau sy'n gallu cynnig gwell gwasanaethau i'n hawlwyr. Mae'r dull hwn yn adeiladu ar y gwelliannau mae'r Adran Gwaith a Phensiynau eisoes wedi'u darparu dros y blynyddoedd diwethaf ar gyfer y dref trwy ddod â gwasanaethau at eu gilydd i gynnig cymorth ychwanegol i'r rhai sydd ei angen fwyaf.

4. Rydym yn credu ei bod yn ddisgwyliad rhesymol bod hawlwyr yn teithio i swyddfa o fewn 3 milltir neu 20 munud ar drafnidiaeth gyhoeddus o'u canolfan gwaith presennol. Mae hwn yn ddull sy'n cael ei gymhwyso ar draws y rhwydwaith canolfan waith a heb fod yn benodol i’r Pîl. Os yw'r cau arfaethedig y tu allan i'r meini prawf hyn, rydym wedi dewis i ymgynghori'n gyhoeddus. Bydd hyn yn sicrhau ein bod yn cymryd i ystyriaeth effaith unrhyw gau cyn i ni wneud penderfyniad terfynol.

5. Mae’r ymgynghoriad hwn yn cynnig bod 1 canolfan gwaith yn cau fel â ganlyn:
   - Canolfan Gwaith Y Pîl.

6. Rydym wedi ystyried yn ofalus ble y gall llwyth gwaith a gwasanaethau'r ganolfan gwaith y bwriedir ei gau gael eu hadleoli. Rydym yn cynnig bod y darpariaeth o wasanaethau ar gyfer Y Pîl yn cael ei adleoli i Ganolfan Gwaith Porthcawl. Er ein bod yn disgwyl mai’r ganolfan gwaith amgen hon fydd y mwyaf cyfleus ar gyfer y rhan fwyaf o hawlwyr, mae pob hawlydd yn gallu mynychu safle sy’n fwyaf cyfleus iddynt yn seiliedig ar eu trefniadau teithio eu hunain.

7. Wrth gynnig cau Canolfan Gwaith Y Pîl ac adleoli darpariaeth o wasanaeth i Ganolfan Gwaith Porthcawl, rydym hefyd yn cynnig lleoli Anogwr Gwaith mewn lleoliad cymunedol, megis llyfrgell, ar sail rhan amser er mwyn rhoi cyngor chwilio am swyddi i hawlwyr ac aelodau o'r cyhoedd. Byddwn hefyd yn gweithio gyda sefydliadau partner, megis darparwyr hyfforddiant, i edrych ar opsiynau ar gyfer cyflenwi gwasanaethau o'u safleoedd hwy.

8. Wrth ddylunio ystâd y dyfodol, a gwneud cynnig hwn ar gyfer y canolfannau gwaith hyn, rydym wedi ceisio cynnal y gwasanaethau a gynigiwn i hawlwyr ac i leihau'r effaith o deithio ar hawlwyr cyn belled ag y bo modd. Mewn rhai achosion, gall hyn olygu teithiau ychydig yn hirach ac ychydig yn fyrrach ar gyfer rhai o'n hawlwyr.

9. Mae Atodiad A yn dangos amcangyfrif o'r amser teithio rhwng y canolfannau gwaith rydym yn cynnig eu huno, gan ddefnyddio amseroedd teithio byrraf ar drafnidiaeth gyhoeddus ac mewn car.

10. Rydym wedi ymrwymo i gydymffurfio â'n Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus. Drwy ymgynghori'n gyhoeddus am ein cynigion, rydym yn ceisio eich barn ar uno’r swyddfeydd, gan gynnwys yr effaith ar amseroedd teithio a chostau, ac ar y cymorth sydd ar gael i hawlwyr a'r boblogaeth ehangach.

11. Wrth ystyried ymatebion i'r ymgynghoriad hwn a gwneud penderfyniadau ynglŷn â dyfodol y canolfannau gwaith hyn, bydd gweinidogion yn ystyried a oes modd cynnal mynediad effeithiol at wasanaethau, a yw'r cynnig yn creu unrhyw faterion cost arwyddocaol i hawlwyr ac, a yw’r cau yn cynnig gwerth am arian i'r trethdalwr.

12. Mae’r Ganolfan Byd Gwaith yn gallu ad-dalu costau teithio ar gyfer y rhai sy’n hawlio Lwfans Ceisio Gwaith ar gyfer unrhyw bresenoldeb sy’n ychwanegol i’w apwyntiad llofnodi bob pythefnos. Yn ogystal, nid yw fel arfer yn ofynnol i’r rhai sy’n hawlio Lwfans Cyflogaeth a Chymorth a Chymhorthdal Incwm i fynychu eu Canolfan Gwaith lleol yn rheolaidd.

# Holiadur

Cwestiwn 1: Ydych chi’n cytuno gyda’r cynnig? Pa sylwadau cyffredinol yr hoffech eu gwneud ar y cynnig?

Cwestiwn 2: A fydd y cynnig i gau Canolfan Gwaith Y Pîl yn cael effaith uniongyrchol arno chi? Os bydd, dylech ddarparu manylion pellach.

Cwestiwn 3: Os ydych yn defnyddio gwasanaethau'r Ganolfan Byd Gwaith ar hyn o bryd yn y ganolfan waith hon, pa effeithiau fydd ar yr amser a'r gost a gymerir i deithio i'ch canolfan waith newydd?

Cwestiwn 4: A oes unrhyw effeithiau penodol eraill yn deillio o'r cynnig hwn y dylai'r Adran Gwaith a Phensiynau gymryd i ystyriaeth wrth wneud penderfyniad?

Cwestiwn 5: A oes gwasanaethau amgen y gellid eu darparu a fyddai o fudd i rai hawlwyr? Er enghraifft, gallai hyn fod yn aelod o staff y Ganolfan Byd Gwaith wedi eu lleoli mewn lleoliad cymunedol i ddarparu cymorth gyda chwilio am waith. Dylech roi eglurhad am eich ateb, gydag enghreifftiau a thystiolaeth o'r galw am y gwasanaeth ble bo hynny'n bosibl.

Cwestiwn 6: Dylech ddarparu unrhyw sylwadau ychwanegol sydd gennych.

Diolch am gymryd rhan yn yr ymgynghoriad.

# Atodiad A

Mae'r tabl hwn yn darparu amcangyfrifon o amseroedd teithio rhwng y ganolfan gwaith rydym yn bwriadu ei gau a’r ganolfan waith o ble y bydd gwasanaethau yn cael eu cyflwyno yn y dyfodol.

| Canolfan Gwaith y cynnigir ei chau | Lleoliad y cynnigir i ddarparu gwasanaethau | Pellter | Trafnidiaeth gyhoeddus | Car |
|---|---|---|---|---|
| Canolfan Gwaith Y Pîl | Canolfan Gwaith Porthcawl | 4.9 milltir | Tua 39 munud | 14 munud |